Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

WCVA CGGC

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Landfill Disposals Tax Communities Scheme

Dyfarniadau Grant Cylch 9 2022-2023

Mudiad	Thema	Lleoliad	Disgrifiad o'r Prosiect	Grant a ddyfarnwyd
Cyngor Cymuned Gresffordd	Bioamrywiaeth	Wrecsam	Mae hwn yn gynllun o dan arweiniad gwirfoddolwyr i adfer bioamrywiaeth Llyn Gresffordd a chodi ymwybyddiaeth o bryderon amgylcheddol drwy annog trigolion a grwpiau cymunedol i weithio gyda'i gilydd i gael gwared â rhywogaethau goresgynnol drwy gyflwyno ffawna a fflora er mwyn sefydlu cynefinoedd gwydn a fydd yn cryfhau'r coridor adfer natur presennol.	£48,145.30

Clubhouse	Gwelliant amgylcheddol ehangach	Sir y Fflint	Ein nod yw creu gwerddon gynhwysol o fywyd gwyllt yng nghanol ardal o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Gwneud ein gardd gymunedol yn groesawgar a deniadol gyda chyfleoedd addysgu, dysgu a byw bywydau gwell, gwella cydlyniant cymdeithasol ac, yn bwysicach oll trwy'r prosiectau hyn, newidiadau sy'n hygyrch i bawb.	£43,539.50
Camlas Abertawe	Bioamrywiaeth	Abertawe	Mae camlas wedi'i llenwi drwy safle tir llwyd diffaith yn cael ei hadfywio fel canolfan gymunedol ar gyfer chwaraeon dŵr. Bydd gwirfoddolwyr yn plannu coed a pheillwyr brodorol ar ddeunydd wedi'i gloddio a gaiff ei ailddefnyddio ar y safle. Bydd y "Ffordd Werdd" hon yn cyflwyno coridor bywyd gwyllt rhwng dwy ran o Gamlas Abertawe â gwerth bioamrywiaeth cydnabyddedig.	£49,999.00
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ruperra	Bioamrywiaeth	Caerffili	Gyda 175 erw o goetir brodorol sydd yn y broses o gael eu hadfywio i'w rheoli, mae angen i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ruperra gyllido gwaith ar Goed y Goitre, gan gynnwys gwaredu rhododendron oresgynnol, creu pwll ddŵr newydd ar gyfer ein madfallod dŵr cribog ac ailblannu perthi a choed brodorol yn yr ardaloedd sydd wedi'u clirio er budd peillwyr a phathewod.	£23,200.00

Llais y Goedwig	Gwelliant amgylcheddol ehangach	Pen-y-bont ar Ogwr	Rydyn ni'n datblygu Planhigfa Goed Gymunedol ar ardal nas defnyddir o Warchodfa Natur Lleol Bedford Park, Cefn Cribwr Pen-y-bont ar Ogwr - byddwn yn cynhyrchu coed o stoc leol i gyflenwi coetiroedd ein dyfodol, gan ddarparu hyfforddiant, sgiliau bywyd uwch a buddion iechyd a lles i wirfoddolwyr lleol, y gymuned a grwpiau â diddordeb arbennig.	£46,930.00
Wilderness Trust	Bioamrywiaeth	Powys	Adsefydlu amrediad o hen weithdai a mannau storio i'w troi'n weithdai cymunedol gwaith coed a metel, tyfu a phrosesu bwyd.	£49,999.00
Clwb Rygbi Cwmtwrch RFC	Bioamrywiaeth	Powys	Ar ôl ymgysylltu â'n cymuned leol, mae Clwb Rygbi Cwmtwrch wedi canfod bod angen gwella cynaliadwyedd, defnyddioldeb ac amrywiaeth ein Hyb Cymunedol. Bydd ein Prosiect Lle Cynnes Cymunedol yn mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy osod paneli PV solar, 'Tesla Powerwall' a phlannu perthi drain gwyn.	£29,069.20
Sefydliad Sea Watch	Bioamrywiaeth	Ynys Môn, Gwynedd	Nod Er Llesiant ein Môr yw ailsefydlu cynefinoedd bioamrywiol a ffyniannus yn Ne-orllewin Ynys Môn a Bae Caernarfon drwy ymhél â chymunedau lleol, datblygu'r dystiolaeth drwy waith ymchwil cyfranogol, galluogi grwpiau ac unigolion i adeiladu capasiti er mwyn sefydlu model rheoli morol seiliedig ar y gymuned.	£49,615.00

Refurbs Flintshire	Lleihau Gwastraff	Sir y Fflint	Bydd ein prosiect yn lleihau gwastraff bwyd drwy gynnal: sesiynau cymunedol addysgol ar sut i ddefnyddio bwyd dros ben a'r gwahaniaethau rhwng dyddiadau ar ei orau cyn/defnyddio erbyn; ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, ac ymgyrchoedd bwyd cymunedol i gasglu eitemau pantri hanfodol diangen ar gyfer ein hoergell gymunedol a fyddai, fel arall, yn mynd yn wastraff.	£49,884.26
Canolfan Merched Gogledd Cymru Cyf	Gwelliant amgylcheddol ehangach	Sir Ddinbych	Mae Canolfan merched Gogledd Cymru yn cynnig lle diogel i fenywod gael gwybodaeth, cymorth un-i-un, eiriolaeth a hyfforddiant ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd, llesiant a gwaith. Bydd y prosiect hwn yn sicrhau y gallwn gynnig amgylchedd cysurus, wrth leihau costau ynni a'n heffaith ar yr amgylchedd.	£46,907.00
RSPCA Llys Nini	Gwelliant amgylcheddol ehangach	Abertawe	Gosod cyflenwad ynni solar i wneud ein hadeilad yn gynaliadwy o ran arian a'r amgylchedd a'n galluogi i'w ddefnyddio drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adeilad yn ganolog i'n gweithgareddau llesiant cymunedol, yn lleihau unigrwydd a diffyg hunan-barch (yn enwedig ymhlith pobl ag anableddau cudd), yn gwella bioamrywiaeth leol, ymwybyddiaeth amgylcheddol ac yn lleihau gwastraff.	£45,000.00
Eglwys Gymunedol Nasareaidd Llai	Gwelliant amgylcheddol ehangach	Wrecsam	Mae gan y mudiad 60 mlynedd o brofiad o weithio o fewn y gymuned yn cefnogi grwpiau rheolaidd fel Dechrau'n Deg a Choleg Cambria	£8,700.00

			ac mae'r mudiad yn hwyluso llawer o sesiynau am ddim, fel clwb ieuenctid, grŵp rhieni a phlant bach, clwb ar ôl ysgol, clybiau cinio, nosweithiau ffilm, sesiynau cyfnewid teganau a dillad, ymhlith pethau eraill. Gofynnir am y grant i gwblhau gwaith cynnal a chadw brys er mwyn sicrhau y gallant barhau i gefnogi'r gymuned.	
Platfform For Change	Bioamrywiaeth	Caerdydd	Byddwn yn datblygu rhandir yng Nghaerdydd i bobl â dementia a'r gymuned leol. Bydd gwirfoddolwyr yn creu cynefinoedd sy'n denu gwenyn, yn tyfu planhigion brodorol a llysiau. Byddwn ni'n cyflwyno sesiynau therapi / gweithgareddau garddwriaethol i bobl sy'n byw â dementia/gofalwyr, ynghyd â hyfforddi gwirfoddolwyr a hyrwyddo buddion natur ar gyfer llesiant.	£49,996.00
Cyfoeth Naturiol Cymru	Bioamrywiaeth, Gwelliant amgylcheddol ehangach	Wrecsam, Abertawe, Sir Benfro, Casnewydd, Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr	Bydd Natur Gyda'n Gilydd, sy'n cynnwys saith gweithgaredd cadwraeth ac ymgysylltu cymunedol penodol, ac ymgyrch gyfathrebu ddigidol genedlaethol, yn mynd i'r afael â rhai o'r argyfyngau cadwraeth mwyaf dyrys yng Nghymru ac yn ailgysylltu pobl â natur, gan gydnabod sefyllfa Cymru fel gwarcheidwad cynefinoedd a rhywogaethau mewn perygl difrifol o ddiflannu.	£250,000.00